SWYDDFA COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU
OFFICE OF THE POLICE & CRIME COMMISSIONER NORTH WALES

# Cylchlythyr Newsletter

**Cylchlythyr #52 SCHTh Gogledd Cymru – 6 Medi 2024**
**OPCC North Wales Newsletter #52 – 6 September 2024**

**Ymgyrch 'Myfyrwyr Mwy Diogel' yn lansio wrth i'r colegau ailddechrau er mwyn cadw pobl ifanc yn ddiogel ar-lein yng Ngogledd Cymru**

Wrth i fyfyrwyr ddechrau eu tymhorau newydd mewn colegau a phrifysgolion ar draws Gogledd Cymru, mae Get Safe Online – gwasanaeth a gomisiynwyd gan Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd a Heddlu Gogledd Cymru er mwyn rhannu gwybodaeth a chyngor defnyddiol hefo pobl yr ardal – yn lansio ymgyrch 'Myfyrwyr Mwy Diogel' er mwyn annog y rhai mewn addysg i gadw'n ddiogel ar-lein.

Pan mae myfyrwyr yn mynd i'r brifysgol neu'r coleg, mae'n ymddangos fod popeth ar-lein – hyd yn oed yn fwy felly nag yn yr ysgol. Fodd bynnag, mae bod ar-lein yn golygu bod angen iddynt fod hyd yn oed yn fwy gofalus wrth osgoi'r gwahanol niwed y gall pobl eu hwynebu ar y rhyngrwyd bob dydd. Mae Get Safe Online wedi llunio rhai awgrymiadau gwych ar gyfer myfyrwyr sy'n dechrau ym mis Medi. Darllenwch fwy yma.



**Back to college 'Safer Students' campaign launches to keep young people safe online in North Wales**

As students start their new terms at colleges and universities across North Wales, Get Safe Online – a service commissioned by the Office of the Police and Crime Commissioner and North Wales Police to share helpful information and advice with the people of the area – is launching a 'Safer Students' campaign to encourage those in education to stay safe online.

When students go to university or college, it seems like everything's online – probably even more so than at school. However, being online more means that they need to be even more careful about avoiding the various harms that people can face on the internet every day. With this in mind, Get Safe Online has put together some top tips for students starting out this September. Read more here.

---

**Gweinidog Partneriaeth Gymdeithasol a CHTh Gogledd Cymru yn ymweld â Bangor i weld sut mae mynd i'r afael a cham-drin geiriol yn y sector manwerthu**

Ar 27 Awst, ymwelodd Gweinidog Partneriaeth Gymdeithasol Llywodraeth Cymru, Jack Sargeant AS, ac Andy Dunbobbin, Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru â siop Boots ar y Stryd Fawr ym Mangor er mwyn dysgu mwy am y mesurau sydd mewn lle i sicrhau bod staff manwerthu yn cael eu diogelu rhag cam-drin geiriol a chorfforol. Digwyddodd yr ymweliad flwyddyn ar ôl lansio Cynllun Gweithredu Manwerthu Llywodraeth Cymru sy'n cynnwys camau i fynd i'r afael a cham-drin gweithwyr mewn siopau.

Yn ôl y ffigyrau diweddaraf o Arolwg Troseddau BRC 2024, bu dros 475,000 o ddigwyddiadau treisgar yn erbyn gweithwyr ym maes manwerthu yn ystod 2022-23 ar draws y DU. Golyga hyn 1,300 digwyddiad y dydd, a oedd yn gynnydd o fwy na 850 y dydd yn 2021-22 a bron i dair gwaith yn fwy na'r ffigwr cyn y pandemig o 450 yn ystod 2019-2020. Dim ond 36% o ddigwyddiadau o drais a cham-drin a gafodd eu riportio i'r heddlu gan fanwerthwyr.

Mae Boots wedi bod yng nghanolfan siopa Bangor am ddegawdau, wrth ymyl canolfannau siopa Menai a Deiniol. Mae Bangor wedi gweld newid mawr yn ystod y blynyddoedd diwethaf yn sgil newid mewn arferion siopa a achoswyd gan y pandemig. Serch hynny mae ymroddiad cadarn ymysg y gymuned leol, perchnogion busnes ac awdurdodau lleol i weld y ganolfan siopa yn adfywio, ac iddi fod yn le dymunol i siopwyr a staff manwerthu fel ei gilydd. Darllenwch fwy yma.



**Minister for Social Partnership and North Wales PCC visit Bangor to see how physical and verbal abuse in the retail sector is being tackled**

On 27 August, Minister for Social Partnership in the Welsh Government, Jack Sargeant MS, and North Wales Police and Crime Commissioner Andy Dunbobbin visited Boots on Bangor High Street to learn more about measures underway to ensure retail staff are protected from verbal and physical abuse. The visit took place a year following the launch of the Welsh Government's Retail Action Plan which includes steps to tackle abuse of shopworkers.

According to the latest figures from the BRC's Crime Survey 2024, over 475,000 incidents of violence and abuse were made against retail workers during 2022-23 across the UK. This amounted to 1,300 incidents a day, which was an increase from more than 850 a day in 2021-22 and is approaching three times the pre-pandemic figure of 450 during 2019-2020. Only 36% of incidents of violence and abuse were reported to police by retailers.

Boots has been a mainstay in Bangor's shopping centre for decades and lies adjacent to the main Menai and Deiniol shopping centres. While Bangor's main city-centre retail core has undergone change in recent years, exacerbated by the change in shopping habits caused by the pandemic, there remains a strong commitment in the local community, business owners and among local authorities to see Bangor's shopping area regenerate, and for it to be the most pleasant environment possible for shoppers and retail staff alike. Read more here.

---

**Annog trigolion Gogledd Cymru i ddweud eu dweud am blismona**

Er mwyn ei alluogi i ysgrifennu ei Gynllun Heddlu a Throsedd, mae'r CHTh eisiau sicrhau ei fod yn gwrando ar bobl leol am sut mae nhw eisiau gweld Gogledd Cymru yn cael ei blismona, ac ymdrin hefo unrhyw bryderon sydd ganddyn nhw. Mae'n gwneud hyn drwy arolwg, er mwyn casglu eu barn a'u hymatebion. Mi fydd yr adborth yn cael ei gynnwys yn y cynllun, ac mi wnaiff helpu ffurfio gwasanaethau'r dyfodol a dosbarthiad adnoddau'r Heddlu dros y pedair blwyddyn nesaf o'i gyfnod yn y swydd.

Dim ond tair wythnos sydd I fynd nes bydd y'r arolwg yn cau, felly dweud eich dweud: http://www.surveymonkey.com/r/Ymgynghoriad-CHTh2024.



**People of North Wales urged to have their say on policing**

To be able to write his Police and Crime Plan, he wants to ensure he is listening to local people about how they want to see North Wales policed and that he is addressing any concerns they have. He is doing this through a survey to get their thoughts and responses. The feedback will be incorporated into the plan and will help shape future services and the allocation of resources by Police over the coming four years of his term of office.

There are only three weeks to go until the survey closes, so have your say: http://www.surveymonkey.com/r/PCC-consultation2024.

---

SWYDDFA COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU

OFFICE OF THE POLICE & CRIME COMMISSIONER NORTH WALES


Rydych chi'n derbyn yr e-bost hwn oherwydd eich bod wedi cofrestru i dderbyn ein e-byst cylchlythyrau.

You are receiving this email as you signed up to receive our newsletter updates.

Eisiau newid sut rydych chi'n derbyn yr e-byst hyn?

Cysylltwch â ni drwy socialmedia@northwales.police.uk i ddiweddaru eich dewisiadau neu ddad-danysgrifio o'r rhestr hon.

Want to change how you receive these emails?
Contact us via socialmedia@northwales.police.uk to update your preferences or unsubscribe from this list.



Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru

Pencadlys yr Heddlu

Glan y Don

Bae Colwyn

Conwy  LL29 8AW

Office of the Police and Crime Commissioner North Wales

Police Headquarters

Glan y Don

Colwyn Bay

Conwy  LL29 8AW

Gallwch ddarllen ein polisi preifatrwydd yma:

https://www.northwales-pcc.gov.uk/cy/polisi-preifatrwydd

You can read our privacy policy here:

https://www.northwales-pcc.gov.uk/privacy-policy